**LC1516**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IS-DDEDDFWRIAETH** | **SUBORDINATE LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Adolygiadau) 2007**

Mae'r Gorchymyn hwn yn adolygu Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru, a gyhoeddwyd yn 2005.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn unol â'r drefn Weithredol ar 28 Mawrth 2007 a daeth i rym ar 29 Mawrth 2007. Mae'r Pwyllgor yn ei ystyried o dan Reol Sefydlog 15.2 yn rhinwedd erthygl 2(4) o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Darpariaethau Trosiannol) (Is-ddeddfwriaeth Gyffredinol y Cynulliad) 2007.

**Rheol Sefydlog 15.2**
Nodwyd y pwyntiau canlynol i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae'r pŵer i adolygu'r Fframwaith wedi'i gynnwys yn adran 21(3) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac wedi dod i rym drwy orchymyn a wnaed o dan adran 21(6). Mae'r Gorchymyn hwn yn gosod allan y newidiadau i'r Fframwaith yn hytrach na chyfeirio at fersiwn diwygiedig ohono. Ystyrir felly y dylid fod wedi enwi adran 21(3) fel pŵer y dibynnwyd arno wrth wneud y Gorchymyn hwn.

Mae'r datganiad yn cyfeirio at yr ymgynghori â ''phersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol yn unol ag adran 21(5) o'r Ddeddf honno'':
Un elfen yn unig yw honno , fodd bynnag, o'r ymgynghori sy'n ofynnol gan yr isadran honno. O dan adran 21(5)(a) mae hi'n ofynnol ymgynghori ag awdurdodau tân ac achub neu'u cynrychiolwyr ac mae hi'n ofynnol o dan adran 21(5)(b) ymgynghori â chynrychiolwyr cyflogeion yr awdurdodau hynny. Ni ddangosir ar wyneb y Gorchymyn fod ymgynghori pellach o'r fath wedi digwydd, er bod y ddogfennaeth atodol a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn dangos bod ymgynghori â'r awdurdodau wedi digwydd. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ynghylch y gofyn am ymgynghori â chynrychiolwyr y cyflogeion. Diben adrodd bod y fath ymgynghori wedi digwydd yw osgoi amheuaeth ynghylch dilysrwydd y ddeddfwriaeth.

Rhoddir teitl y Fframwaith sy'n cael ei newid yn erthygl 2 ac mae'n gyson â'r teitl y cyfeiriwyd ato yn y Gorchymyn a roddodd rym i'r Fframwaith gwreiddiol. Fodd bynnag, teitl y fersiwn a gyhoeddwyd yw "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru". Buasai cysondeb rhwng y ddeddfwriaeth a'r cyhoeddiad o gymorth..

Mae Erthygl 2 yn cyfeirio at ddiwygiadau yn unol â'r ''Atodlen'' i'r Gorchymyn. Pennawd yr Atodlen, fodd bynnag, yw ''Atodlen 1'' er na cheir atodlenni eraill. Unwaith eto , buasai cysondeb o gymorth.

Mae Paragraff 1 o'r Atodlen yn newid "Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol'' yn "Pwyllgor Diogelwch Cymunedol''. Dylasid fod wedi newid y pennawd uwchben paragraff 1.7 o'r Fframwaith yn unol â hyn.

Mae Paragraff 5 o’r Atodlen yn awgrymu newid mewn sawl paragraff yn y Fframwaith, gan gynnwys 2.39, 2.40 a 6.16. Mae paragraffau 2.39 a 2.40,fodd bynnag wedi’u dileu, gan baragraff 11 o’r Atodlen, a pharagraff 6.16 gan baragraff 22 o’r Atodlen. Mae’r newidiadau a awgrymwyd felly yn ddi-rym, a dylid fod wedi’u dileu.

Mae Paragraff 20 o’r Atodlen yn mewnosod paragraff 6.12 arall o’r Fframwaith, ond mae llinell gyntaf y testun Saesneg yn cyfeirio at 12%, tra bo’r testun Cymraeg yn cyfeirio at 2%. Gan mai geiriau llwyr draethiadol ydynt ac nid rhai sy’n cynnig canllaw, nid yw’r camgymeriad yn dyngedfennol, ond mae osgoi anghysondebau o’r fath yn bwysig fodd bynnag.

Mân gamgymeriadau drafftio neu deipio yw’r rhain i gyd y gellid fod wedi’u cywiro drwy drefn Memorandwm Cywiriadau yn ystod yr Ail Gynulliad.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**26 Mehefin 2007**